Dafadennau a Ferwcau

Taflen Wybodaeth i Gleifion

Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin

Dim ond os yw'ch fferyllydd wedi eich cynghori ynglŷn â'ch cyflwr chi neu gyflwr eich plentyn y dylech chi ddefnyddio'r daflen hon.

Mae dafadennau a ferwcau yn lympiau bras bach ar y croen. Firws sy'n eu hachosi, sef feirws papiloma dynol.

Fel arfer mae dafadennau yn grwn a'r un lliw â'r croen. Gan amlaf, maen nhw'n ymddangos ar y dwylo a'r traed ond maen nhw'n gallu datblygu unrhyw le ar y corff.

Dafaden

Mae ferwcau yn ddafadennau sy'n datblygu ar wadnau'r traed. Efallai y byddan nhw'n edrych yn fflat yn sgil cael eu gwasgu wrth i chi gerdded. Yn aml, byddwch chi'n gweld dotiau du o dan y croen caled.

Ferwca

Efallai y byddwch chi'n cael 1 neu 2 ddafaden, neu gall nifer o ddafadennau ddatblygu gyda'i gilydd. Er nad yw dafadennau yn achosi niwed, gallan nhw fod yn boenus (yn enwedig ferwcau) a choslyd a pheri embaras.

Trin ac Atal

Fel arfer mae dafadennau a ferwcau yn diflannu ar eu pennau eu hunain ymhen 2 i 3 blynedd. Gallwch chi drin dafadennau os ydyn nhw'n boenus neu'n anghyfforddus. Efallai y bydd trin eich dafaden neu ferwca yn cael gwared arno yn gynt, ond mae'n debyg y bydd eisiau ei thrin am sawl wythnos cyn iddi fynd. Gall triniaeth achosi llid ar eich croen.

Meddyginiaethau sy'n gallu helpu

Nid yw'r meddyginiaethau hyn yn addas i bawb. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gofyn i'ch fferyllydd am gyngor ynghylch pa driniaeth sydd orau i chi neu'ch plentyn.

Gallwch chi ddefnyddio **asid salisylig** i drin dafadennau a ferwcau. Mae'n dod mewn gwahanol gryfderau a ffurfiau, er enghraifft fel paent, gel neu eli. Mae asid salisylig yn gweithio trwy feddalu haen allanol eich croen, er mwyn iddi lacio a phlicio.

Gall triniaethau sy'n cynnwys asid salisylig fynd ar dân yn hawdd. Cadwch nhw'n bell o fflamau, gwreichion ac arwynebau poeth. Gall asid salisylig hefyd niweidio ffabrigau a deunyddiau eraill.

Defnyddiwch driniaeth asid salisylig hyd nes bod y ddafaden neu'r ferwca wedi mynd, ond peidiwch â defnyddio Occlusal® am fwy na 6 wythnos. Peidiwch â defnyddio BazookaTM Cryfder Ychwanegol, Salactol TM na System Tynnu Ferwca SchollTM am fwy na 12 wythnos. Os yw'r croen o amgylch yr ardal rydych chi'n ei thrin yn dechrau brifo, stopiwch y driniaeth am ychydig ddyddiau hyd nes iddi dawelu, ac yna gallwch chi ail-ddechrau.

Os yw'r llid yn ddifrifol, neu os yw'ch croen yn troi'n goch iawn ac yn goslyd, efallai bod gennych chi alergedd. Stopiwch ddefnyddio asid salisylig a gofynnwch i'ch meddyg neu fferyllydd am gyngor.

Trin ac Atal

Darllenwch y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch meddyginiaeth bob amser.
Os ydych chi'n poeni am unrhyw sgîl-effeithiau o driniaeth, rhowch wybod i feddyg, nyrs neu fferyllydd. Gallwch hefyd adrodd am sgîl-effeithiau ar ap neu wefan Cerdyn Melyn.

Mae'n bosibl trosglwyddo dafadennau a ferwcau i bobl eraill neu eu lledaenu i rannau eraill o'ch corff.

Er mwyn atal dafadennau a ferwcau rhag lledaenu:

- golchwch eich dwylo ar ôl cyffwrdd â dafaden neu ferwca
- peidiwch â phlicio na chrafu eich dafaden neu ferwca
- peidiwch â chnoi eich ewinedd neu sugno'r bysedd sydd â dafadennau
- newidiwch eich sanau bob dydd os oes gennych chi ferwca
- rhowch blaster sy'n cadw dŵr allan ar y ddafade neu'r ferwca pan fyddwch chi'n mynd i nofio
- peidiwch â cherdded yn droednoeth mewn mannau cyhoeddus os oes gennych chi ferwca
- peidiwch â rhannu esgidiau, sanau a thywelion

Rydych chi'n fwy tebygol o gael ferwca os yw'ch croen yn wlyb neu wedi'i ddifrodi.

Pryd i chwilio am help

Cysylltwch â'ch meddyg teulu os:

- oes gennych chi ddafaden ar eich wyneb, eich pen ôl, eich organau cenhedlu, neu mewn ardaloedd lle mae croen yn cyffwrdd croen, fel o dan eich breichiau neu'ch bronnau
- mae gennych chi lawer o ddafadennau neu ferwcau, neu rydych chi'n eu cael nhw'n aml
- mae eich dafaden neu ferwca yn gwaedu, mae gwallt yn tyfu allan ohoni, neu mae'n edrych yn wahanol i'r ffordd yr oedd yn edrych o'r blaen
- mae eich dafaden neu ferwca yn brifo llawer neu dydych chi ddim yn hapus gyda hi
- nid yw asid salisylig yn gweithio
- mae gennych chi system imiwnedd wan, er enghraifft yn sgil triniaeth canser neu therapi steroid
- mae gennych chi ddiabetes neu gylchrediad gwaed gwael

Os ydych chi'n poeni nad yw cyflwr eich plentyn yn gwella, neu ei fod yn gwaethygu, siaradwch â'ch meddyg teulu.

Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am ddafadennau, ferwcau, neu feddyginiaeth, siaradwch â'ch fferyllydd neu edrychwch ar y gwefannau canlynol:
GIG 111 Cymru: https://111.wales.nhs.uk/Wartsandverrucas/
Patient UK: https://patient.info/skin-conditions/warts-and-verrucas-leaflet
Medicines A-Z: https://www.nhs.uk/medicines/

Mae gwybodaeth o'r adnoddau uchod wedi'i chynnwys yn y daflen hon.

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This leaflet is also available in English.

Fersiwn: 1 Cyhoeddwyd: Mai 2023
Pob delwedd o Getty Images a Canva Pro

GCFC | WMAS
Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru
Welsh Medicines Advice Service